# Coed Nadolig

10 Ionawr 2016

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 5 Ionawr, pan wnaethoch ofyn:

> *Hoffwn gael gwybodaeth a gedwir sy'n ymwneud â chyfanswm cost addurniadau Nadolig, er enghraifft coed a goleuadau a hefyd cost anrhegion i aelodau o staff yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.*

Mae'r ffigurau yn y tabl isod yn gysylltiedig â chyfanswm cost addurniadau Nadolig yn 2016, ar draws ystâd Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn cynnwys Tŷ Hywel, y Senedd a'r ganolfan ymwelwyr ym Mae Colwyn.

| **Eitem** | **Cost** |
|---|---:|
| Coed Nadolig (yn cynnwys stand) | £1,267.98 |
| Cherry Picker (costau llogi) | £554.40 |
| Goleuadau LED | £149.68 |
| **Cyfanswm** | **£1,972.06** |

Nid yw Comisiwn y Cynulliad yn talu am anrhegion i aelodau o staff, ac nid oes gennym unrhyw wybodaeth a gofnodwyd yn ymwneud ag anrhegion o'r fath.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF